## Cynnydd y Cynllun Rheoli Carbon

Mae ymrwymiad Prifysgol Metropolitan Caerdydd i leihau ein hallyriadau carbon cymaint â phosibl yn cael ei gefnogi gan dryloywder ynghylch ein hallyriadau, yn gyfredol ac yn hanesyddol. Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad o allyriadau carbon y Brifysgol ar draws Cwmpas 1 a Chwmpas 2 o'r ystâd weithredol, a chategorïau allyriadau cwmpas 3 dethol.

### CWMPASAU 1, 2 A 3

| Ardal | Sylfaen 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Targed 2030 |
|---|---|---|---|---|
| **Cwmpas 1** | 1.700 | 1.841 | 1.541 | Sero net erbyn 2030 |
| **Cwmpas 2** | 1.005 | 1.248 | 1.244 | Sero net erbyn 2030 |
| **Cwmpas 3** | 7.039 | 10.266 | 16.112 | Gostyngiad o 30% mewn allyriadau carbon erbyn 2030 |

Yn 2023/2024, llwyddodd y brifysgol i leihau ei hallyriadau o nwy yn sylweddol. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr adolygiad o Bolisi Cysur Thermol y Brifysgol a'n menter *Haneru'r Hanner* sydd wedi mynd i'r afael â defnydd ynni y tu allan i oriau gweithredu craidd. Drwy ddadansoddi data mesurydd bob hanner awr ac addasu gweithrediadau'r adeilad, mae'r prosiect wedi cyflawni arbedion amgylcheddol ac ariannol mawr, gan weithio o fewn cyllidebau cynnal a chadw presennol a chyda buddsoddiad cyfalaf lleiaf posibl. Mae hyn yn dangos gwelliant sylweddol yn y carbon a allyrrir y pen a gyflawnir drwy'r rhaglenni gwella effeithlonrwydd ynni, y gostyngiad yn nwyster carbon y grid a gwell ymwybyddiaeth ymhlith ein staff a'n myfyrwyr ynghylch pa mor effeithlon rydym yn defnyddio ein gofod a'n hadeiladau.



Ar ben hynny, mae dadansoddiad cynnar o'r flwyddyn academaidd ddiwethaf (2024/2025) yn dangos, o'i gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol (2023/2024), ein bod wedi cyflawni:

- Gostyngiad o 14.59% mewn allyriadau ynni
- Arbedion cost ynni o £702,000 o'i gymharu â'r rhagolwg
- £1.07 miliwn mewn arbedion cost ynni a dŵr o'i gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol
- 20.7% yn llai o nwy, 6.9% yn llai o drydan, ac 11.3% yn llai o ddŵr yn cael ei ddefnyddio
- 2.19 gigawat (GWh) awr o ynni wedi'i arbed
- 9,776 metr ciwbig o ddŵr wedi'u harbed




Cyfrifir ein hallyriadau cwmpas 3 gan ddefnyddio ffactorau allyriadau carbon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a'n data Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Mae'r allyriadau cwmpas 3 a ddewiswyd o gyflenwad dŵr, gwastraff, caffael, allyriadau cymudo staff a myfyrwyr a theithio busnes y Brifysgol (yn bennaf o deithio awyr). Dyma'r categorïau mwyaf arwyddocaol ar gyfer allyriadau cwmpas 3 y Brifysgol, fel y'u pennir yn ein Cynllun Rheoli Carbon 2024-2030, a nhw hefyd yw'r categorïau lle mae gennym ddigon o ddata ar gyfer cyfrifiadau allyriadau ystyrlon. Y categorïau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl hwn yw allyriadau o neuaddau preswyl mewnol ac allanol ac allyriadau o fyfyrwyr sy'n teithio o gartref. Yn y dyfodol, rydym yn gobeithio cyfrifo a chynnwys y ffynonellau allyriadau hyn yn ein hadroddiadau cynnydd blynyddol.

## DADANSODDIAD CWMPAS 3

| Ardal | Sylfaen | Blwyddyn Sylfaenol | Targed | Cynnydd 22/23 | Cynnydd 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trin Dŵr Gwastraff E3CEWWTT** | 19.040 | 2021/22 | Gostyngiad o 10% yn tCO2e | 15.641 | 15.386 |
| **Cyflenwad Dŵr (gan gynnwys Preswyl) E3CEWST** | 10.979 | 2021/22 | Gostyngiad o 10% yn tCO2e | 14.379 | 13.257 |
| **Gwastraff (gan gynnwys adeiladu a phreswyl) E3CEWT** | 13.150 | 2021/22 | Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi ac ailgylchu 70% o wastraff. Gostyngiad o 5% mewn tCO2e | 15.317 | 15.195 |
| **Teithio Busnes – staff a myfyrwyr** | 66.13 | 2021/22 | Gostyngiad o 5% mewn allyriadau carbon tC02e | 471.110 | 782.700 |
| **Cymudo Staff** | 362.90 | 2021/22 | Lleihau teithiau car staff ar eu pen ei hunain i Gaerdydd a'r ddibyniaeth ar gerbydau i gefnogi ei weithgarwch 5% | 2783.73 | 709.18 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymudo Myfyrwyr** | 1532.40 | 2021/22 | Gostyngiad o 5% mewn allyriadau carbon tC02e | 37556.99 | 2745.24 |
| **Caffael (cadwyn gyflenwi)** | 17196.70 | 2021/22 | Gostyngiad o 5% mewn allyriadau carbon tCO2e sy'n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau a brynwyd | 13348.620 | 14,526.635 |

Bydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn parhau i nodi a blaenoriaethu prosiectau sy'n cyflawni arbedion carbon. Ar gyfer cwmpas 1 a 2, byddwn yn parhau i leihau'r defnydd ynni cyffredinol o'n hystâd drwy flaenoriaethu a buddsoddi mewn adnewyddu adeiladau wedi'i gynllunio a phrosiectau cynnal a chadw hirdymor sy'n cyflawni arbedion ynni a charbon. Ar gyfer cwmpas 3, byddwn yn parhau â'n gwaith ar gaffael cynaliadwy; yn hyrwyddo ac yn rhoi cymhellion i deithio cynaliadwy i staff a myfyrwyr ac yn meithrin ymddygiadau cynaliadwy cadarnhaol trwy weithgareddau ymgysylltu creadigol.